PARTHIAN

COVER COVER
You are what you read...

buzz

Amber Beetle Books

Caswell Catering

madappledesigns

honno
Gwasg Menywod Cymru
Welsh Women's Press

WOMEN PUBLISHING WALES • MENYWOD CYHOEDDI CYMRU •

fsa

Swansea University
Prifysgol Abertawe
Cultural Institute
Sefydliad Diwylliannol

SEREN

GRAFFEG

Firefly

HAFAN BOOKS

atebol

www.womenpublishingwales.com

# WOMEN PUBLISHING WALES
# MENYWOD CYHOEDDI CYMRU

## EMPOWERING VOICES, INSPIRING FUTURES
## GRYMUSO LLEISIAU, YSBRYDOLI DYFODOL

### PROGRAMME OF EVENTS — RHAGLEN O DDIGWYDDIADAU

| | | |
|---|---|---|
| **Welcome Reception** (Mall Room) | 1:00pm - 1:30pm | **Croeso** (Ystafell y Maes Siopa) |
| **Refreshments and Vendor Liaison** (Central Area) | 1:30pm - 2:00pm | **Diodydd a Chysylltiadau gyda Gwerthwyr** (Ardal Ganolog) |
| **Panel 1 - Empowering Voices** (Mall Room)<br>The Empowering Voices panel brings together a diverse array of women, each with their unique experiences and perspectives, to discuss topics central to empowerment and inclusion within the publishing sector. | 2:00pm - 2:45pm | **Panel 1 - Grymuso Lleisiau** (Ystafell y Maes Siopa)<br>Mae'r panel Grymuso Lleisiau yn dod â chyfres amrywiol o ferched at eu gilydd, pob un â'u profiadau a'u safbwyntiau unigryw, i drafod themâu ganolog i alluogi ac yn cynnwys o fewn y sector cyhoeddi. |
| **Refreshments** (Central Area) | 2:45pm - 3:15pm | **Diodydd** (Ardal Ganolog) |
| **Panel 2 - Inspiring Futures** (Mall Room)<br>Join key figures and publishers as they explore the future of publishing in Wales. This engaging discussion will offer insights into the evolving landscape of the industry. | 3:15pm - 4:00pm | **Panel 2 - Ysbrydoli Dyfodolau** (Ystafell y Maes Siopa)<br>Ymunwch â phrif ffigurau a chyhoeddwyr wrth iddynt archwilio dyfodol cyhoeddi yng Nghymru. Bydd y drafodaeth ysbrydoledig hon yn cynnig mewnwelediadau i dirwedd esblygiol y diwydiant. |
| **Wrap-Up Celebration with Food & Drinks** | 4:00pm - 4:30pm | **Diweddariad a Dathliad gyda Bwyd a Diod** |

# EMPOWERING VOICES

Mae Rufus Mufasa yn ymgyrchydd llenyddol ac yn artist cyfranogol arloesol sy'n dadlau dros addysg hip hop a datblygu barddoniaeth sy'n hygyrch i bawb. Mae'n cyfansoddi caneuon, yn rapio ac yn perfformio barddoniaeth, ac mae ganddi MA mewn ysgrifennu sgriptiau. Mae'n un o gyd-sefydlwyr Swynwraig, grŵp o fenywod sy'n archwilio diwylliant, y celfyddydau ac iaith.

Mae Rufus yn un o Ysgrifenwyr wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli, mae'n cefnogi sawl prosiect sy'n pontio'r cenedlaethau ac yn mentora dynion yng Ngharchar y Parc. Yn ddiweddar, bu'n un o'r prif berfformwyr yng Ngŵyl Lenyddiaeth Helsinki. Hi oedd yr artist cyntaf o Gymru i berfformio yng ngŵyl Ruisrock ac ar ben hynny mae'n mentora beirdd bitnic y Ffindir. Mae bellach yn ysgrifennu mewn tair iaith o ganlyniad i hynny.


Rufus Mufasa

Literary activist Rufus Mufasa is a pioneering participatory artist who advocates hip hop education and poetry development accessible to all. Lyricist, rapper and performance art poet, with an MA in scriptwriting. Co-founder of Swynraig, a group of women who explore culture, the arts and language.

Rufus is a Hay Writer at Work, supports several intergenerational projects, mentors men at Parc Prison and she recently headlined the Helsinki Literature Festival. As well as being the first Welsh artist to perform at Ruisrock festival, she mentors Finnish beat poets, and now writes trilingually as a result.


Meredith Miller

Mae Meredith Miller yn nofelydd ac yn feirniad llenyddol sy'n byw ym Mro Ddyfi ac mae bellach yn cyhoeddi gyda gwasg Honno. Mae ganddi PhD o Sussex ac mae'n darlithio ym Mhrifysgol Caerdydd. Caiff ei thrydedd nofel, *Fall River*, ei chyhoeddi gan Honno ym mis Mawrth 2024 a bydd ei stori fer ddiweddaraf, 'Not from an Astronomer', yn cael ei chynnwys yn rhifyn 6 *Cylchgrawn Llenyddol Tamarind*. Mae Meredith yn siarad Cymraeg ac mae'n aelod o Gylch Llenyddol Bro Ddyfi.

Meredith Miller is a novelist and literary critic who lives in Bro Dyfi and now publishes with Gwasg Honno. She holds a PhD from Sussex and lectures at Cardiff University. Her third novel, *Fall River*, is forthcoming from Honno in March 2024 and her most recently published short story, 'Not from an Astronomer', will appear in issue 6 of *Tamarind Literary Magazine*. Meredith is a Welsh speaker and member of Cylch Llênyddol Bro Ddyfi.


Tia-zakura Camilleri


Mae Tia-zakura Camilleri yn artist creadigol o Gaerdydd sy'n defnyddio barddoniaeth, creu theatr a newyddiaduraeth fel dulliau actifiaeth, gan ganolbwyntio ar hyrwyddo lleisiau duon. Yn fwyaf adnabyddus am ei dull rhythmig o 'floetry', gellir gweld Tia yn perfformio ei darnau llafar ar draws y Deyrnas Unedig, gan gynnwys ei phrosiect diweddaraf yn Amgueddfa Victoria ac Albert. Ym mis Hydref 2023, cyhoeddwyd Tia am y tro cyntaf fel un o'r awduron ar gyfer y llyfr *'Cymru & I'*, a guradwyd gan Inclusive Journalism Cymru. O hyn, mae Tia wedi parhau â'i gwaith llenyddiaeth ac ar hyn o bryd mae wrthi'n datblygu ei blodeugerdd gyntaf.

Tia-zakura Camilleri is a creative from Cardiff who uses poetry, theatre making and journalism as tools of activism, focussing on amplifying black voices. Best known for her rhythmic approach to 'floetry", Tia can be seen performing her spoken-word pieces across the UK, including her most recent project at the Victoria & Albert Museum. In October 2023, Tia was published for the first time as one of the writers for the book *'Cymru & I'*, curated by Inclusive Journalism Wales. From this, Tia has continued her pursuit in literature and is currently in the process of developing her first anthology.

Gwenno Dafydd, M.Sc.Econ (Women's Studies) brings three strands of expertise to her work - A professional career in broadcasting and performance since 1980, Equal Opportunities and Diversity at board SME level and Coaching at Leadership level since 1998 in personal development and public speaking. A global podcaster on many subjects relating to leadership and breaking through the glass ceiling, she has clients in India, America, Turkey, Greece, Spain, Canada and Australia. The published author of *'Stand up & Sock it to them Sister, Funny Feisty Females'*, she writes lyrics and performs a one-woman show about the French singer Edith Piaf.


Gwenno Dafydd

Mae Gwenno Dafydd, M.Sc.Econ (Astudiaethau Menywod), yn cyflwyno tri arbenigedd i'w gwaith – gyrfa broffesiynol ym maes darlledu a pherfformio ers 1980, cyfle cyfartal ac amrywiaeth ar lefel bwrdd busnesau bach a chanolig a hyfforddiant ar lefel arweinyddiaeth ers 1998 mewn datblygu proffesiynol a llefaru cyhoeddus. Mae'n gyfrifol am bodlediadau byd-eang ar lawer o bynciau sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth a thorri drwy'r nenfwd gwydr, ac mae ganddi gleientiaid yn India, America, Twrci, Gwlad Groeg, Sbaen, Canada ac Awstralia. Hi yw awdur y llyfr *'Stand up & Sock it to them Sister, Funny Feisty Females'* ac mae'n ysgrifennu caneuon ac yn perfformio sioe un fenyw am Edith Piaf, y gantores o Ffrainc.


Faith Buckley

Mae Faith MW Buckley yn Artist Llefaru ac yn Gyd-sylfaenydd Prosiect Full Spectrum, gweler y prosiect ar Facebook @fullspectrumproject. Mae Faith yn cynnal Spectrum Live, digwyddiad bob 6 wythnos sy'n dod â thalent orau de Cymru mewn Cerddoriaeth, Llefaru, Comedi a Barddoniaeth ynghyd. Mae hi'n eiriolwr dros amrywiaeth ym maes y celfyddydau yng Nghymru, gyda llawer o'i gwaith yn canolbwyntio ar y gymuned LGBTIQA+, colled a pherthyn. Daeth yn ail yng Ngwobr Barddoniaeth Cymru 2021 ac mae ar hyn o bryd yn gweithio ar ei chasgliad cyntaf o gerddi. Pan nad yw hi'n ysgrifennu neu'n perfformio, mae Faith yn cadw'n brysur gyda'i theulu ac yn fwy na dim yn mwynhau cael hwyl gyda'i gŵr, eu 4 o blant a'u 2 gi ar arfordiroedd godidog Cymru.

Faith MW Buckley is Spoken Word Artist and Co-founder of The Full Spectrum Project, find the project on Facebook @fullspectrumproject. Faith hosts Spectrum Live, a 6 weekly event bringing together, the best of South Wales' talent in Music, Spoken Word, Comedy and Poetry. She is an advocate for diversity in the Welsh Arts Scene, with many of her works focusing on the LGBTIQA+ community, loss and belonging. Runner up in Wales Poetry Award 2021 & currently working on her first collection of poems. When not writing and performing, Faith is kept busy with her family and enjoys nothing more than having fun with her husband, 4 children and 2 dogs in the beautiful Welsh vistas and coastlines.

Mae Nelly Adam, a adnabyddir hefyd fel Queen Niche, yn artist y gair llafar, yn ymgyrchydd hawliau dynol ac yn siaradwr cyhoeddus sydd yn sicr yn gadael ei hôl. Gydag angerdd a dawn, mae hi'n ymdrechu i greu lle tecach i bawb, gan rymuso cenedlaethau'r dyfodol i ddefnyddio eu llais a chanfod eu harbenigedd. Bydd Nelly yn mynd â chi ar daith llawn pob emosiwn drwy straeon o brofiad byw, tynnu sylw at anghyfiawnderau a helpu cynulleidfaoedd i ddeall yn well degwch, ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth.

Nelly Adam, also known as Queen Niche, is a spoken word artist, human rights activist, and public speaker who certainly leaves her mark behind. With passion and flair, she strives to create a more equitable space for all, empowering future generations to use their voice and find their niche. Nelly will take you on a rollercoaster ride through stories from lived experience, calling out injustices and helping audiences better understand equity, belonging and identity.


Nelly Adam


Rhoda Thomas

Rhoda Thomas is a founder member of Swansea-based Live Poets, providing a platform and support to Welsh radical writer/performers. She has self-published a life-advice compendium and co-founded hwnnw and 5 books of poetry. Her work is included in publications such as *Red Poets*, *Seventh Quarry*, *Poetry in the Brew (Nashville)*, *Coronaverse*, *Onward/Ymlaen!*, *Gwrthryfel/Uprising*, *Land of Change*, *Social Work Education*, *Socialist Worker* and *Socialist Review*. Rhoda has two Masters degrees – in Applied Psychology and Cultural Awareness, and has taught social workers, counsellors and doctors over 4 decades. She is currently working on her autobiography covering 40 years of life and activism in Wales.

Mae Rhoda Thomas yn un o aelodau sefydlu Live Poets yn Abertawe, gan gynnig llwyfan a chefnogaeth i lenorion/berfformwyr radical o Gymru. Mae wedi hunangyhoeddi compendiwm sy'n rhoi cyngor ar fywyd a pum llyfr barddoniaeth. Mae ei gwaith wedi'i gynnwys mewn cyhoeddiadau megis *Red Poets*, *Seventh Quarry*, *Poetry in the Brew (Nashville)*, *Coronaverse*, *Onward/Ymlaen!*, *Gwrthryfel/Uprising*, *Land of Change*, *Social Work Education*, *Socialist Worker* a *Socialist Review*. Mae gan Rhoda ddwy radd Meistr – mewn Seicoleg Gymhwysol ac Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol, ac mae wedi addysgu gweithwyr cymdeithasol, cwnselwyr a meddygon dros bedwar degawd. Ar hyn o bryd, mae'n gweithio ar hunangofiant sy'n cwmpasu 40 mlynedd o fywyd ac ymgyrchu yng Nghymru.

# Inspiring Futures


Helgard Krause

Originally from Germany, Helgard moved to Wales in 2005. She learned Welsh to take up the role of Head of Sales & Marketing at the Books Council of Wales. She was appointed to her current role as Chief Executive of the Books Council of Wales in 2017. Helgard is a Fellow of the Learned Society in Wales, and since 2019 has been named by *The Bookseller Magazine* as one of 150 Most Influential People in British Publishing. She has been a member of the non-executive board of Creative Wales since 2020 and has served as an independent panel member for public appointments by Welsh Government.

Yn wreiddiol o'r Almaen, symudodd Helgard i Gymru yn 2005. Dysgodd y Gymraeg er mwyn derbyn rôl Pennaeth Gwerthu a Marchnata yng Nghyngor Llyfrau Cymru. Cafodd ei phenodi i'w rôl bresennol fel Prif Weithredwr Cyngor Llyfrau Cymru yn 2017. Mae Helgard yn Gymrawd o Gymdeithas Ddysgedig Cymru, ac ers 2019 fe'i henwyd gan *Gylchgrawn The Bookseller* yn un o'r 150 o bobl fwyaf dylanwadol ym maes cyhoeddi ym Mhrydain. Bu'n aelod o fwrdd anweithredol Cymru Greadigol ers 2020 ac mae wedi gwasanaethu fel aelod annibynnol o banel ar gyfer penodiadau cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru.

Sarah Johnson is Deputy Publisher at Seren, Wales's leading independent literary publisher, specialising in English-language writing from Wales. She was named a Bookseller Rising Star in 2022 and has a first-class degree in English Language with Creative Writing from Bangor University. As Head of Marketing and Publicity, she launched The Seren Poetry Podcast in 2022. For six months in 2023, she took on the role of Acting CEO. Outside of work, Sarah plays in a brass band and is developing a number of fiction projects.


Sarah Johnson

Sarah Johnson yw Dirprwy Gyhoeddwr Seren, cyhoeddwr llenyddol annibynnol mwyaf blaenllaw Cymru, sy'n arbenigo mewn ysgrifennu Saesneg o Gymru. Fe'i henwyd yn un o sêr y dyfodol gan The Bookseller yn 2022 ac mae ganddi radd dosbarth cyntaf mewn Iaith Saesneg gydag Ysgrifennu Creadigol o Brifysgol Bangor. A hithau'n Bennaeth Marchnata a Chyhoeddusrwydd, lansiodd The Seren Poetry Podcast yn 2022. Am chwe mis yn 2023, ymgymerodd â rôl y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro. Y tu allan i'r gwaith, mae Sarah yn chwarae mewn band pres ac mae'n datblygu nifer o brosiectau ffuglen.


Jannat Ahmed

Jannat Ahmed was born and grew up in Barry and is co-founder of Lucent Dreaming, an independent creative writing magazine and book publisher. As well as working as an editor, she is an occasional poet, writer, illustrator and teacher. In 2023 she was a finalist in the national St David Awards for her contribution to culture. She has published poems in Cheval 13, Poetry Wales and Poetry Birmingham and has written for Poetry London, The Poetry Review and Jerwood Arts.

Cafodd Jannat Ahmed ei eni a'i fagu yn y Barri ac ef yw cyd-sefydlwr Lucent Dreaming, cylchgrawn ysgrifennu creadigol annibynnol a chyhoeddwr llyfrau. Yn ogystal â gweithio fel golygydd, mae'n llenor, yn ddarlunydd, yn athrawes ac yn fardd achlysurol. Yn 2023, cyrhaeddodd rownd derfynol gwobrau cenedlaethol Gwobrau Dewi Sant am ei chyfraniad at ddiwylliant. Mae wedi cyhoeddi cerddi yn Cheval 13, Poetry Wales a Poetry Birmingham ac mae wedi ysgrifennu ar gyfer Poetry London, The Poetry Review a Jerwood Arts.

Emma Clark is the founder of *Buzz Magazine* which launched in 1991. For the last thirty-three years, Emma has cultivated *Buzz Magazine* into a leading platform for authentic storytelling, culture, lifestyle, and entertainment. As the founder of Buzz Culture, she offers youth employability and work-based skills training for young people in creative industries and journalism. Emma fosters creativity and inclusivity, celebrating diverse voices and perspectives. Her commitment to authenticity and excellence has solidified *Buzz Magazine*'s position as a trusted authority in the media industry. Additional positions include: Director at Music Academy Wales which ran and produced The Welsh Music Awards and Compass Point Urban Festival.


Emma Clark

Emma Clark yw sylfaenydd *Buzz Magazine*, a lansiwyd ym 1991. Ers 33 o flynyddoedd, mae Emma wedi meithrin *Buzz Magazine* i fod yn gyfrwng blaenllaw ar gyfer adrodd straeon, diwylliant, ffordd o fyw ac adloniant dilys. A hithau'n sefydlwr Buzz Culture, mae'n cynnig hyfforddiant cyflogadwyedd a sgiliau sy'n seiliedig ar waith i bobl ifanc yn y diwydiannau creadigol a newyddiaduraeth. Mae Emma yn meithrin creadigrwydd a chynwysoldeb, gan ddathlu lleisiau a safbwyntiau amrywiol. Mae ei hymrwymiad i ddidwylledd a rhagoriaeth wedi cadarnhau statws *Buzz Magazine* fel awdurdod dibynadwy yn y diwydiant y cyfryngau. Mae ei rolau ychwanegol yn cynnwys: Cyfarwyddwr Music Academy Wales, a wnaeth gynnal a chynhyrchu Gwobrau Cerddoriaeth Cymru a Gŵyl Drefol Compass Point.


Penny Thomas

Mae Penny Thomas yn olygydd ac yn gyhoeddwr arobryn i'r Firefly Press, y gwnaeth hi ei sefydlu ar y cyd â Janet Thomas ddeng mlynedd yn ôl i gyhoeddi ffuglen o ansawdd i bobl 5-19 mlwydd oed. Yn ystod y cyfnod hwnnw mae Firefly wedi ennill Gwobr Branford Boase am y nofel gyntaf i blant orau a Medal Yoto Carnegie, yn ogystal ag ennill teitl Gwasg Fach y flwyddyn yng Nghymru yn 2020, 2021 a 2023. Yn flaenorol, roedd Penny yn olygydd ffuglen yn Seren. Yn raddedig yn y Saesneg, mae hi hefyd yn newyddiadurwr hyfforddedig, a bu'n gweithio mewn papurau newydd dyddiol am 14 mlynedd. Mae hi'n byw yng Nghaerdydd gyda'i hen sbaniel.

Penny Thomas is an award-winning editor and Publisher at Firefly Press, which she co-founded with Janet Thomas ten years ago to publish quality fiction for 5-19 year olds. In that time Firefly has won the Branford Boase Award for best first children's novel and the Yoto Carnegie Medal, as well as being named Wales Small Press of the year in 2020, 2021 and 2023. Previously Penny was fiction editor at Seren. An English graduate, she is also a trained journalist, having worked in daily newspapers for 14 years. She lives in Cardiff with her elderly spaniel.

Rachel joined Atebol just over five years ago as Creative Editor and Head of Publishing. Before this, she worked with BookTrust; the UK's largest children's reading charity, leading on their national programmes for children in the early years. She feels passionate about creating books of the highest quality, that entertain, educate and inspire children to read.


Rachel Lloyd

Ymunodd Rachel â chwmni Atebol ychydig dros bum mlynedd yn ôl fel Golygydd Creadigol a Phennaeth Cyhoeddi. Cyn hyn, bu'n gweithio gyda BookTrust; elusen ddarllen plant fwyaf y DU, yn arwain ar eu rhaglenni cenedlaethol i blant y blynyddoedd cynnar. Mae'n teimlo'n angerddol dros greu llyfrau o'r ansawdd uchaf, sy'n ddeniadol, yn diddanu, yn addysgu ac yn ysbrydoli plant i ddarllen.